**Rhif: WG 44002**

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad Anffurfiol – crynodeb o'r ymatebion

# Amodau Trwydded Cregyn Moch Arfaethedig 2022-23

## Yr amodau a gynigir ar gyfer trwydded cregyn moch y cyfnod 1 Mawrth 2022 i 28 Chwefror 2023

10 Rhagfyr 2021

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80391-457-2

## Cynnwys

1. Cefndir ........ 2
2. Y Cyfnod Ymgynghori a Dosbarthu’r Ymgynghoriad ........ 2
3. Ymatebion ........ 3
4. Cwestiynau’r Ymgynghoriad ........ 3
5. Crynodeb ........ 6
6. Camau Nesaf ........ 6

## 1. Cefndir

Fel ymateb i’r pryderon ynghylch gorbysgota cregyn y moch, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar gyflwyno mesurau newydd ar gyfer rheoli cregyn moch.

*Mesurau rheoli cregyn moch 2020 - estyniad*

Ar ôl ystyried yr ymatebion yn ofalus, daeth Gorchymyn Trwydded Bysgota am Gregyn Moch (Cymru) 2021 i rym ar 10 Rhagfyr 2021. Pwrpas y Gorchymyn yw diogelu stociau cregyn y moch a sicrhau bod y bysgodfa’n gynaliadwy.

O ganlyniad, mae’r mesurau canlynol yn effeithio ar holl gychod pysgota trwyddedig y DU a thramor sy’n pysgota am gregyn y moch â chewyll ym mharth Cymru o 1 Mawrth 2022:

- Cynllun awdurdodi (trwydded gydag amodau),
- Terfyn dalfa blynyddol (ACL) sef cyfanswm y cregyn moch y gellir eu cymryd o barth Cymru ar sail tystiolaeth,
- Terfyn dalfa misol (MCL) ar gyfer cychod â chaniatâd,
- Ffi am drwydded (o 2023 ymlaen).

Lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad anffurfiol byr gyda rhanddeiliaid ar yr amodau sy’n cael eu cynnig ar gyfer trwydded cregyn moch y cyfnod 1 Mawrth 2022 i 28 Chwefror 2023.

## 2. Y Cyfnod Ymgynghori a Dosbarthu’r Ymgynghoriad

Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 22 Tachwedd a daeth i ben ar 5 Rhagfyr.

Cafodd yr ymgynghoriad ei gyhoeddi ar LLYW.CYMRU a chafodd llythyr ei anfon at bob pysgotwr cofrestredig yng Nghymru yn ogystal ag at bysgotwyr eraill yr ydym yn gwybod sy’n pysgota am gregyn moch ym Mharth Cymru a phrynwyr/proseswyr cregyn moch.

Roedd yr ymatebwyr yn cael ymateb ar e-bost neu drwy ymateb ysgrifenedig.

## 3. Ymatebion

Carai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i fynegi'u barn ac ymateb i'r ymgynghoriad. Caiff pob ymateb ei ystyried cyn cyflwyno amodau'r drwydded.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, daeth 15 o ymatebion i law gan amrywiaeth o unigolion a chyrff sydd â diddordeb ym mhysgodfa cregyn moch Cymru.

O'r 15 a ymatebodd, cafwyd sylwadau gan 9 ohonynt ar amodau penodol y drwydded, gyda'r gweddill yn cynnig sylwadau a chwestiynau am y mesurau ar gyfer rheoli'r bysgodfa cregyn moch yn gyfan. Ymgynghorwyd eisoes ar y mesurau hynny yn 2020 ac eto yn 2021 ac er ein bod wedi nodi'r sylwadau hynny, ni fyddwn yn eu trafod eto yn yr adroddiad hwn.

## 4. Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar yr 13 o amodau a oedd wedi'u cynnig ar gyfer y drwydded. Bydd yr amodau hyn yn gymwys i'r trwyddedau y bydd unrhyw un sydd am bysgota neu gymryd cregyn moch yn fasnachol â chewyll ym Mharth Cymru dros gyfnod trwydded 1 Mawrth 2022 i 28 Chwefror 2023 yn gorfod eu cael .

| |
|---|
| Amod 1 y Drwydded: **Mae'r drwydded hon yn ddilys o 00:01 ar 1 Mawrth 2022 tan 23:59 ar 28 Chwefror 2023 (Arfaethedig)** |
| Gwnaeth un ymatebydd gytuno â'r amod hwn a gofynnodd un arall ble allai gael y drwydded.<br><br>Ni chafwyd ymatebion negyddol i'r amod hwn. |

| |
|---|
| Amod 2 y Drwydded: **Rhaid cynnal y gweithgareddau a awdurdodir gan y drwydded hon yn unol â darpariaethau Gorchymyn Trwydded Bysgota Cregyn Moch (Cymru) 2021.** |
| Gwnaeth un ymatebydd gytuno â'r amod hwn<br><br>Ni chafwyd ymatebion negyddol i'r amod hwn. |

| |
|---|
| Amod 3 y Drwydded: **Mae'r drwydded hon ond yn rhoi'r hawl i ddeiliad y drwydded (y person awdurdodedig) a/neu gapten/meistr y cwch ar ran y perchennog(ion)/siartrwr(wyr) a enwir yn y drwydded hon i gymryd cregyn moch (*Buccinum undatum*) â chewyll gan ddefnyddio'r cwch a enwir yn y drwydded hon.** |
| Gwnaeth un ymatebydd gytuno â'r amod hwn<br><br>Gofynnodd dau ymatebydd a oedd y drwydded a'i hamodau yn gymwys i gychod yr UE y tu allan i'r terfyn 12mf.<br><br>Gofynnodd un ymatebydd a fyddai cyfyngiadau ar bwy sy'n cael gwneud cais am drwydded cregyn moch ac yn cael cadw trwydded cregyn moch. |

| |
|---|
| Ni chafwyd ymatebion negyddol i’r amod hwn. |

| |
|---|
| Amod 4 y Drwydded: **Ni chewch drosglwyddo'r drwydded hon.** |
| Gwnaeth un ymatebydd gytuno â’r amod hwn ond gofynnodd a fyddai amod 12 y drwydded yn gymwys pe bai cwch yn cael ei newid, gyda chaniatâd, o fewn cyfnod y drwydded.<br><br>Ni chafwyd ymatebion negyddol i’r amod hwn. |

| |
|---|
| Amod 5 y Drwydded: **Mae deiliad y drwydded yn gyfrifol am gadarnhau y Terfyn Dalfa Misol (MCL) hyblyg a rhoi gwybod ei fanylion i gapten/meistr y cwch a’r criw pan fydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru bob mis.** |
| Gwnaeth un ymatebydd gytuno â’r amod hwn ond gofynnodd, pe bai’r MCL yn cael ei gyhoeddi’n hwyr am reswm y tu allan i reolaeth deiliad y drwydded, a fyddai’r MCL blaenorol yn dal mewn grym.<br><br>Gofynnodd un ymatebydd a allai’r MCL newid gan ddibynnu ar nifer y criw sy’n rhedeg y cwch.<br><br>Ni chafwyd ymatebion negyddol i’r amod hwn. |

| |
|---|
| Amod 6 y Drwydded: **Ni ddylid dal mwy na’r Terfyn Dalfa Misol (MCL).** |
| Gwnaeth un ymatebydd gytuno â’r amod hwn gan nodi na ddylai pwysau samplau gwyddonol o gregyn moch gael ei dynnu o MCL y cwch unigol.<br><br>Ni chafwyd ymatebion negyddol i’r amod hwn. |

| |
|---|
| Amod 7 y Drwydded: **Rhaid i ddeiliad y drwydded wneud adroddiad llawn a chywir (ar "Ffurflen y Ddalfa") o'r holl Gregyn Moch (*Buccinum undatum*) sydd wedi'u pysgota a'u cymryd â chewyll o barth Cymru erbyn 23:59 ar ddiwrnod olaf pob mis, hyd yn oed os nad ydynt wedi pysgota.** |
| Gwnaeth un ymatebydd gytuno â’r amod hwn<br><br>Ni chafwyd ymatebion negyddol i’r amod hwn. |

| |
|---|
| Amod 8 y Drwydded: **Rhaid cwblhau Ffurflen Dalfeydd gan ddefnyddio'r ddolen a ddarperir ar LLYW.CYMRU.  Ar gyfer pob diwrnod o bysgota, rhaid cynnwys: pwysau'r ddalfa a gedwir (Kg), nifer y cewyll a godwyd, yr amser y cedwir y cewyll yn y dŵr (diwrnodau) a lleoliad gweithgarwch pysgota (Is-Hirsgwar ICES).** |
| Gwnaeth un ymatebydd gytuno â’r amod hwn a chynnig y sylwadau/syniadau canlynol:<br>• Sicrhau bod pawb sy’n cael trwydded  yn cael yr hyfforddiant neu’r adnoddau priodol i allu defnyddio platfform Llyw.Cymru yn effeithiol er mwyn sicrhau bod data sy’n amodol ar amser yn cael ei derbyn a’i chydnabod. |

- Byddai cyfle wedi'i golli pe na bai amcangyfrif canrannol yn cael ei gynnwys o'r ddalfa sydd o dan yr MCR – hynny er mwyn gallu cadarnhau'r dull samplu ar gyfer asesu stoc.
- Er mwyn deall faint o gewyll cregyn moch a ddefnyddir fesul cwch, bydd angen nodi ar y ffurflen sawl cawell a osodir gyda'i gilydd a sawl un a godir bob dydd.
- Cadarnhad bod pob cwch yn cyflwyno un adroddiad llawn bob mis.

Dywedodd un ymatebydd fod Is-Hirsgwarau ICES yn rhy fras ac yn rhy fawr. Roedd yn teimlo hefyd bod y ffurflenni'n casglu gwybodaeth sy'n cael ei chasglu gan systemau cofnodi dalfeydd eraill.

| Amod 9 y Drwydded: **Os bydd cwch yn pysgota o fewn parth Cymru a'r tu allan iddo yn ystod un daith bysgota, rhaid cofnodi'r holl gregyn moch a ddaliwyd ar y daith honno ar y Ffurflen Dalfeydd a'u tynnu o Derfyn Dalfa Misol (MCL) y cychod.** |
|---|
| Gwnaeth un ymatebydd gytuno â'r amod hwn.<br><br>Gwnaeth dau ymatebydd anghytuno â'r amod hwn gan deimlo y gellid defnyddio systemau tracio cychod, Illyfrau log electronig a CCTV i nodi'r cregyn moch sy'n cael eu dal o fewn parth Cymru a'r tu allan iddo.<br><br>Roedd dau ymatebydd yn poeni y byddai cychod o'r tu allan i Gymru yn dod i bysgota am gregyn y moch ym mharth Cymru a'u glanio mewn porthladdoedd y tu allan i Gymru heb lenwi Ffurflen Ddalfa. Awgrymodd un ohonynt y dylai'r holl gregyn moch a ddelir yng Nghymru gael eu glanio yng Nghymru. |

| Amod 10 y Drwydded: **Rhaid i ddeiliad y drwydded ond cadw a glanio cregyn moch cyfan yn eu cregyn.** |
|---|
| Gwnaeth un ymatebydd gytuno â'r amod hwn.<br><br>Ni chafwyd ymatebion negyddol i'r amod hwn. |

| Amod 11 y Drwydded: **Rhaid i gopi o'r drwydded hon (papur neu electronig) fod ar gael i Swyddogion Gorfodi Morol ei harchwilio ar y cwch a enwir.** |
|---|
| Gwnaeth un ymatebydd gytuno â'r amod hwn.<br><br>Ni chafwyd ymatebion negyddol i'r amod hwn. |

| Amod 12 y Drwydded: **Rhaid i ddeiliad y drwydded roi gwybod i Weinidogion Cymru gan ddefnyddio'r ffurflen *Pysgodfa Cregyn y Moch – newid y cwch ar eich trwydded* gan ddefnyddio'r ddolen ar LLYW.CYMRU os bydd manylion y cwch a enwir ar y drwydded yn newid ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod y drwydded.** |
|---|
| Gwnaeth un ymatebydd gytuno â'r amod hwn.<br><br>Ni chafwyd ymatebion negyddol i'r amod hwn. |

| |
|---|
| Amod 13 y Drwydded: **Rhaid i ddeiliad y drwydded gydymffurfio ag unrhyw hysbysiad atal pysgota dros dro ym mharth Cymru a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.** |
| Gwnaeth un ymatebydd gytuno mewn egwyddor â'r amod hwn, cyn belled â bod tystiolaeth/cyfiawnhad i gefnogi hysbysiad atal pysgota ym mharth Cymru.<br><br>Ni chafwyd ymatebion negyddol i'r amod hwn. |

## 5. Crynodeb

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar yr 13 o amodau a oedd wedi'u cynnig ar gyfer trwydded cyfnod 1 Mawrth 2022 i 28 Chwefror 2023.

Mae'r canlyniadau'n dangos bod cefnogaeth i'r amodau a gynigir, gyda rhai eithriadau. Roedd cyfran o'r ymatebion yn ymwneud â'r mesurau ar gyfer rheoli pysgodfeydd cregyn moch yr oeddem eisoes wedi ymgynghori arnyn nhw yn 2020 ac eto yn 2021, ac er i ni nodi'r sylwadau hynny, nid ydym wedi eu trafod eto yn yr adroddiad hwn.

## 6. Camau Nesaf

Mae swyddogion polisi Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr holl ymatebion a sylwadau. Bydd y swyddogion yn llunio papur nawr am y canlyniadau ar gyfer y Gweinidog.

Bydd y swyddogion yn parhau i gadw mewn cysylltiad â rhanddeiliaid ac yn disgwyl gallu cyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer cregyn y moch mewn pryd i gyfnod y drwydded allu dechrau ar 1 Mawrth 2022. Rhagwelir y bydd cyfnod ymgeisio am drwydded yn dechrau nes ymlaen y mis hwn a bydd y swyddogion yn rhoi gwybodaeth i'r holl bysgotwyr bryd hynny.

Caiff unrhyw amodau ychwanegol fydd eu hangen i gydymffurfio â Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Alldraeth 2017 eu cadarnhau cyn dechrau cyfnod cynta'r drwydded ar 1 Mawrth 2022.